Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN20

- Arweiniad Dosbarthu Gwastraff Cemegol

| | |
|---|---|
| Awdur: | Ben Harris (Swyddog yr Amgylchedd) |
| Cymeradwywyd gan: | Teifion Maddocks (Arweinydd Cynaliadwyedd) |
| Dyddiad creu: | 09/11/2018 |
| Dyddiad y fersiwn: | 29/06/2026 |

| **Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN20**<br>Arweiniad Dosbarthu a Storio Gwastraff Cemegol | |
|---|---|
| Lleoliad Cynhyrchu | Y Brifysgol gyfan |
| Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) | Amrywiol* Gwastraff peryglus a gwastraff nad yw’n beryglus |
| Math | Gwastraff Cemegol a Pheryglus |
| Dull gwaredu | Contractwyr trwyddedig arbenigol |
| Math o gynhwysydd | Amrywiol |

## Dyletswydd Gofal

I sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'i Dyletswydd Gofal, fel y'i nodir yn Adran 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod ei holl wastraff yn cael ei storio mewn modd a fydd yn ei atal rhag cael ei ryddhau neu ei ollwng tra bydd ar y safle neu'n cael ei storio.

- Rhaid sicrhau bod gwastraff yn cael ei gadw, ei drin, ei drosglwyddo neu ei waredu yn unol â thrwydded rheoli gwastraff neu awdurdodiad arall
- Rhaid i wastraff fod dan reolaeth y deiliad bob amser
- Rhaid i wastraff gael ei drosglwyddo i bobl awdurdodedig yn unig, megis cludwyr gwastraff cofrestredig neu weithrediadau gwaredu gwastraff trwyddedig â chaniatâd i dderbyn y math hwnnw o wastraff
- Rhaid i ddisgrifiad ysgrifenedig digonol gyd-fynd ag unrhyw wastraff sy'n cael ei drosglwyddo/symud, a fydd yn caniatáu adnabod y gwastraff a'i drin yn gywir.

Rhaid i'r Brifysgol weithredu i ddiogelu gwastraff wedi'i storio rhag:

- cyrydu neu dreulio cynwysyddion gwastraff
- tân, gorlifo neu ollyngiad damweiniol neu drwytholchi damweiniol o wastraff nad yw wedi'i ddiogelu rhag y glaw;
- damwain neu'r tywydd yn achosi i gynhwysydd gwastraff ddiraddio neu dorri gan ryddhau'r gwastraff;
- gwastraff yn cael ei chwythu gan y gwynt neu'n cwympo wrth gael ei storio neu ei gludo; a
- llosgi bwriadol, tipio anghyfreithlon a fandaliaid, lladron, plant, tresmaswyr neu anifeiliaid yn mynd â gwastraff ymaith

**Mae'r Ddyletswydd Gofal hon yn dechrau gyda'r sawl a gynhyrchodd y gwastraff ac ni ellir ei dirprwyo i eraill**. Mae'r ddyletswydd hon yn orfodadwy o dan y gyfraith a gall unigolion a'r Brifysgol wynebu erlyniad troseddol am achosion o beidio â chydymffurfio. O ganlyniad, rhaid i'r Brifysgol (a'i staff a'i myfyrwyr) wneud pob ymdrech i gategoreiddio, gwahanu a storio gwastraff yn unol â'r safonau a bennir gan y ddeddfwriaeth gyfredol.

## Cyfrifoldebau

### Rhaid i Wasanaethau Proffesiynol/Gyfadrannau wneud y canlynol:

- Sicrhau bod ganddynt system ar waith i gynnal **Asesiad Risg Cemegol** ar gyfer unrhyw sylweddau peryglus a bod yr asesiadau'n nodi'r ffordd gywir o gael gwared â'r sylwedd.
- Sicrhau bod cemegion yn cael eu storio mewn cynhwysyddion addas a'u bod wedi'u labelu'n gywir ac yn fanwl, yn barod i'w casglu.
- Sicrhau bod gwastraff cemegol yn cael ei storio'n gywir ar sail peryglon ac am gyfnod nad yw'n hwy nag sy'n angenrheidiol.
- Mynd â gwastraff cemegol i'r storfa gwastraff cemegol briodol er mwyn ei waredu.
- Anfon ffurflenni cais am waredu gwastraff cemegol wedi'u cwblhau'n llawn at estates-waste@abertawe.ac.uk cyn mynd â'r gwastraff cemegol i'r ardal storio. Dylid darparu copi papur o'r ffurflen wrth fynd â'r gwastraff cemegol i'r storfa.

### Mae staff a myfyrwyr y Brifysgol yn gyfrifol am:

- Leihau defnydd o ddeunydd crai a swm y gwastraff a gynhyrchir wrth weithio, drwy gynllunio gwaith yn ofalus
- Ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau lle bynnag y bo'n ymarferol
- Nodi peryglon cynhenid y gwastraff a gynhyrchwyd, gan nodi'r llwybr gwaredu gwastraff priodol a gwaredu'r gwastraff yn gywir
- Gwahanu, cynnwys a labelu gwastraff yn briodol er mwyn osgoi problemau o ganlyniad i gymysgu mathau anghydnaws o wastraff ac osgoi lledaenu peryglon yn yr ardal waith
- Rhoi gwybod i Arweinydd Iechyd a Diogelwch y Gyfadran/Gwasanaeth Proffesiynol a/neu Swyddog yr Amgylchedd neu unigolyn(ion) dynodedig am ddiffyg cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r polisi hwn /gweithdrefnau rheoli gwastraff adrannol
- Sicrhau bod yr HOLL gemegion, samplau a deunyddiau diangen sydd wedi cronni, gan gynnwys y rhai hynny mewn cypyrddau, oergelloedd a rhewgelloedd, yn cael eu gwaredu'n gywir ar ddiwedd eu hastudiaethau, eu prosiect(au) neu eu cyflogaeth gyda'r Brifysgol. Mae arweiniad pellach ar gael yma: **8.1.14 Gadael a Dihalogi Labordai, Gweithdai a Chyfarpar**

### Y Tîm Cynaliadwyedd:

- Darparu arweiniad ar ddosbarthu gwastraff
- Rheoli gweithgarwch gwaredu gwastraff cemegol ar ran y Brifysgol drwy gontractwr(wyr) awdurdodedig
- Cynnal copïau canolog o Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff (WTN) a Nodiadau Cludo Gwastraff Peryglus (HWCN)
- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau mewn deddfwriaeth a safonau rheoli gwastraff ac amgylcheddol yng Nghymru, y DU ac yn ehangach.

- Cyfathrebu amserol a phriodol ynghylch cyngor a gofynion dosbarthu a storio

## Dosbarthu gwastraff i'w Waredu

I waredu gwastraff cemegol drwy Storfa Gwastraff Cemegol y Brifysgol, mae'n rhaid i brif Briodwedd Beryglus (HP) y gwastraff gael ei nodi ar Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol y Brifysgol y gellir dod o hyd iddi yma: Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol neu drwy'r adran Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff. Mae codau HP yn pennu a oes rhaid ymdrin â gwastraff fel gwastraff peryglus i'w waredu.

I gynorthwyo wrth asesu a dosbarthu gwastraff i bennu ei Briodwedd Beryglus, dylid cymryd y camau canlynol:

1. **Canfod cyfansoddiad cemegol y gwastraff**
   Gellir dod o hyd i wybodaeth am gyfansoddiad gwastraff ar Daflen Data Diogelwch y gwneuthurwyr (SDS) neu ar yr Asesiad Risg Cemegol/Asesiad COSHH priodol

   Mae'n rhaid cadw cofnod o gynnwys yr holl ddeunyddiau cemegol a ddefnyddir mewn arbrofion oherwydd gall cemegion anhysbys beri risg ac mae'n ddrud cael gwared â nhw oherwydd bod angen eu profi i ganfod y cyfansoddiad i'w galluogi i gael eu dosbarthu, eu rheoli'n ddiogel a'u trin mewn modd sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau.

2. **Asesu Priodweddau Peryglus y gwastraff:**

| Priodweddau Peryglus (HP1-HP15) | |
|---|---|
| HP1 - Ffrwydrol | HP9 - Heintus |
| HP2 - Ocsideiddiol | HP10 - Gwenwynig (Atgenhedlu) |
| HP3 - Fflamadwy | HP11 - Mwtagenaidd |
| HP4 - Llidus | HP12 - Rhyddhau nwy sy'n ddifrifol wenwynig |
| HP5 - Tocsigedd i organau targed penodol (STOT) | HP13 - Sensiteiddiol |
| HP6 - Tocsigedd difrifol | HP14 - Ecodocsig |
| HP7 - Carsinogenaidd | HP15 - Gwastraff sy'n gallu arddangos priodwedd beryglus a restrir uchod nad yw'n cael ei harddangos yn uniongyrchol gan y gwastraff gwreiddiol |
| HP8 - Cyrydol | |

   Ar gyfer y rhai sydd wedi'u rhifo o HP1 i HP15, mae 3 dull i gyfrifo a yw gwastraff yn arddangos priodwedd beryglus:

   a. Cyfrifo: Gan gyfeirio at derfyn crynodiad ar gyfer cod(au) datganiad perygl,
   b. Profi: Profi a yw priodwedd beryglus benodol yn bresennol ai peidio (defnyddir hyn yn aml ar gyfer y priodweddau ffisegol - ffrwydrol, ocsideiddiol a fflamadwy), neu
   c. Y daflen data diogelwch: Os yw'r gwastraff yn gynnych sydd wedi'i weithgynhyrchu ac nid yw'r cyfansoddiad wedi newid, gellir defnyddio'r daflen data diogelwch ar gyfer y cynnyrch penodol hwnnw

Os nad yw'r cyfansoddiad wedi newid a gellir defnyddio taflen data diogelwch , gellir cymryd y camau canlynol i gwblhau'r Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol.

## 3. Nodi'r Datganiad Peryglus ar y daflen data diogelwch

**SAFETY DATA SHEET** according to Regulation (EC) No. 1907/2006, as amended

**ROUNDUP FLEX**
Version 3 / GB
102000040169

**2/13**
Revision Date: 12.12.2024
Print Date: 15.09.2025

**SECTION 2: HAZARDS IDENTIFICATION**

**2.1 Classification of the substance or mixture**

**Classification in accordance with Regulation (EC) No 1272/2008 on classification, labelling and packaging of substances and mixtures, as amended.**

Long-term (chronic) aquatic hazard: Category 2
H411 Toxic to aquatic life with long lasting effects.

**2.2 Label elements**

**Labelling in accordance with Regulation (EC) No 1272/2008 on classification, labelling and packaging of substances and mixtures, as amended.**

Hazard label for supply/use required.

**Hazardous components which must be listed on the label:**

- Potassium salt of glyphosate




**Hazard statements**

| | |
|---|---|
| H411 | Toxic to aquatic life with long lasting effects. |
| EUH401 | To avoid risks to human health and the environment, comply with the instructions for use. |

**Precautionary statements**

| | |
|---|---|
| P280 | Wear protective gloves/protective clothing/eye protection/face protection. |
| P391 | Collect spillage. |
| P501 | Dispose of contents/container to a licensed hazardous-waste disposal contractor or collection site except for empty clean containers which can be disposed of as non-hazardous waste. |

## 4. Defnyddio Arweiniad Technegol Gwastraff WM3 (tudalennau 13-17) i droi'r Datganiad Peryglus yn Briodwedd Beryglus HP [1]



| Hazard statement | Description | Hazard Class and Category In the MCL to the GB CLP | | Threshold[2] | Hazardous Property |
|---|---|---|---|---|---|
| H351 | Suspected of causing cancer | Carc. | 2 | Ind. 1.0% | HP 7 |
| H360(1) | May damage fertility or the unborn child | Repr. | 1A, 1B | Ind. 0.3% | HP 10 |
| H361(1) | Suspected of damaging fertility or the unborn child | Repr. | 2 | Ind. 3% | HP 10 |
| H362 | May cause harm to breast-fed children. | Lact. | n/a | n/a | n/a |
| H370 | Causes damage to organs | STOT SE | 1 | Ind. 1% | HP 5 |
| H371 | May cause damage to organs | STOT SE | 2 | Ind. 10% | HP 5 |
| H372 | Causes damage to organs | STOT RE | 1 | Ind. 1% | HP 5 |
| H373 | May cause damage to organs | STOT RE | 2 | Ind. 10% | HP 5 |
| H400 | Very toxic to aquatic life. | Aquatic Acute | 1 | See Appendix C14 | HP 14 |
| H410 | Very toxic to aquatic life with long lasting effects. | Aquatic Chronic | 1 | See Appendix C14 | HP 14 |
| H411 | Toxic to aquatic life with long lasting effects. | Aquatic Chronic | 2 | See Appendix C14 | HP 14 |
| H412 | Harmful to aquatic life with long lasting effects. | Aquatic Chronic | 3 | See Appendix C14 | HP 14 |

**H411 → Priodwedd Beryglus HP14: Ecodocsig**

**Trothwyau:**
Trothwy priodwedd beryglus yw'r crynodiad, y maint, neu'r terfyn ffisegol penodol lle mae sylwedd neu gymysgedd o wastraff yn newid yn gyfreithiol o fod yn wastraff 'nad yw'n beryglus' i 'beryglus'

Er enghraifft:
***Mae gan H351:*** yr amheuir ei fod yn achosi canser (CAT2 Carc.), drothwy crynodiad o 1%, felly byddai unrhyw grynodiad sy'n fwy na hyn yn cael ei ystyried yn beryglus yn ôl HP7 Carsinogenaidd.

**Datganiad Perygl**
Mae datganiadau perygl (codau-H) yn ymadroddion safonol a ddefnyddir o dan CLP/GHS i ddisgrifio natur peryglon cemegol ac i gyfleu'r risg gysylltiedig.

Mae pob côd yn dechrau â'r llythyren 'H' wedi'i dilyn gan dri digid; mae'r digid cyntaf yn nodi'r math o berygl (ffisegol, iechyd neu amgylcheddol), ac mae'r digidau eraill yn ddilyniannol, e.e:

H2xx → Peryglon ffisegol → HP1 - HP3
- H221 Nwy fflamadwy (HP3 fflamadwy)

H3xx → Peryglon iechyd → HP4 - HP13
- H312 Niweidiol os yw'n dod i gyswllt â'r croen (HP6 tocsigedd difrifol)

H4xx → Peryglon amgylcheddol → HP14

[1] WM3 Arweiniad Technegol Gwastraff T13

- H401 Yn wenwynig i fywyd dyfrol (HP14 Ecodocsig)

| Datganiad Peryglus | Priodwedd Beryglus | Atodiad C WM3 - Asesiad HP |
|---|---|---|
| Peryglon Ffisegol: **H2**xx<br><br>e.e. H221 Nwy fflamadwy. | HP1 Ffrwydrol<br><br>HP2 Ocsideiddiol<br><br>HP3 Fflamadwy | Tudalen C3<br><br>Tudalen C7<br><br>Tudalen C9 |
| Peryglon Iechyd: **H3**xx<br><br>e.e. H312 Niweidiol os yw'n dod i gyswllt â'r croen | HP4 Llidus<br><br>HP5 Tocsigedd i organau targed penodol/sugniad<br><br>HP6 Tocsigedd difrifol<br><br>HP7 Carsinogenaidd<br><br>HP8 Cyrydol<br><br>HP9 Heintus (Gwastraff Clinigol)<br><br>HP10 Tocsig ar gyfer atgenhedlu<br><br>HP11 Mwtagenaidd<br><br>HP12 Nwy Tocsig difrifol<br><br>HP13 Sensiteiddiol | Tudalen C15<br><br>Tudalen C19<br><br>Tudalen C23<br><br>Tudalen C27<br><br>Tudalen C29<br><br>Tudalen C33 (nid yw'n cael ei dderbyn yn y Storfa Gwastraff Cemegol)<br><br>Tudalen C37<br><br>Tudalen C39<br><br>Tudalen C41 (nid yw'n cael ei dderbyn yn y Storfa Gwastraff Cemegol)<br><br>Tudalen C45 |
| Amgylcheddol: **H4**xx<br>e.e. H401 Yn wenwynig i fywyd dyfrol | HP14 Ecodocsig | Tudalen C47 |
| EUH001 Ffrwydrol pan fo’n sych<br><br>EUH019 Gall ffurfio perocsidau ffrwydrol | HP15 Gwastraff sy'n gallu arddangos priodwedd beryglus a restrir uchod nad yw’n bresennol yn y gwastraff gwreiddiol | C52 |

| | | |
|---|---|---|
| EUH044 Risg o ffrwydrad os yw'n cael ei wresogi dan gyfyngiad | | |

Mae'r system hefyd yn cynnwys dau air signal, sy'n ymddangos ar labeli cemegol er mwyn cyfleu difrifoldeb y peryglon i eraill, fel a ganlyn:

- **Rhybudd**: yn nodi perygl llai difrifol
- **Perygl:** yn nodi perygl mwy difrifol

Defnyddir y rhain i gyfleu difrifoldeb  perygl cemegion ar unwaith i'r defnyddiwr. Dim ond un o'r uchod y byddwch chi'n ei weld ar label. Nid oes angen gair signal ar ddosbarthiadau perygl isel iawn.

## 5. Cofnodi Priodwedd Beryglus (HP) y Gwastraff ar y Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol

CHEMICAL WASTE DISPOSAL REQUEST FORM
ONCE COMPLETE PLEASE SEND TO ESTATES-WASTE@SWANSEA.AC.UK

Prifysgol Abertawe
Swansea University

Faculty: ______________ Faculty / Dept: ______________
Contact name: ______________ Ext No: ______________
Date: Laboratory:

| Substance Name (mandatory filed) | CAS number *(if applicable)* | Quartzy ID number | Description of container e.g. winchester bottle (mandatory field) | State (Liquid, solid, powder etc.) (mandatory field) | Weight/ Volume (kg/ ml) (mandatory field) | Quantity / number of item (mandatory field) | Laboratory/ Location disposing of (Building & room no) (mandatory field) | Hazard Property (s) (HP1-HP15) e.g. HP3 - Flammable See SDS Safety Data Sheet (mandatory field) | Is the container fully labelled? (mandatory field) | Have you provided the SDS for the substance (if appropriate) | Storage requirements (from SDS Safety Data Sheet) | Date o dispos |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |

I sicrhau storio diogel, os yw priodwedd beryglus y gwastraff yn HP4 neu'n HP8 (Categori 1A 1B 1C) mae'n rhaid iddi gael ei nodi ar y Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol yn yr adran 'Enw'r Sylwedd' os yw'r gwastraff yn:

- Gyrydol; Asid - Mwyn anorganig
- Cyrydol; Bas - Mwyn anorganig
- Cyrydol; Asid - Organig
- Cyrydol; Bas - Organig

Unwaith i'r holl feysydd gorfodol ar y Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol gael eu cwblhau, mae'n rhaid iddi gael ei hanfon drwy e-bost at estates-waste@abertawe.ac.uk ynghyd â dolen

i'r holl daflenni data diogelwch gwastraff a restrir, neu ddolen iddynt, ar gyfer asesiad. Mae enghraifft o ffurflen a gwblhawyd yn gywir yn Atodiad A.

Os yw cyfansoddiad y gwastraff yn anhysbys, yna defnyddiwch Arweiniad Technegol Dosbarthu Gwastraff WM3 a gofynnwch am arweiniad gan gysylltu â'r tîm Cynaliadwyedd yn: estates-waste@abertawe.ac.uk. Os nad yw'r briodwedd beryglus yn gallu cael ei nodi, mae'n rhaid i'r Gyfadran/Gwasanaeth Proffesiynol dalu i brofi'r gwastraff. Mae Gweithdrefn Defnyddwyr y Storfa Gwastraff Cemegolyn darparu rhagor o wybodaeth am feintioli sylweddau anhysbys.

Cyfrifoldeb y cynhyrchydd yw dosbarthu ei wastraff cemegol; fodd bynnag, darperir arweiniad trwy e-bostio estates-waste@abertawe.ac.uk

Os oes angen Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) ar gyfer gwaredu gwastraff ar unrhyw Gyfadran neu Wasanaeth Proffesiynol, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk.

## Gwahanu a Storio Gwastraff yn Ddiogel yn ôl Dosbarthiad Perygl


Gall arferion storio cemegol gwael neu anghywir arwain at adweithiau damweiniol rhwng deunyddiau anghydnaws, gyda'r posibilrwydd o achosi niwed, tân neu hyd yn oed ffrwydradau. Dylai'r holl gemegion gael eu storio mewn ffordd sy'n atal deunyddiau anghydnaws rhag cael eu cymysgu'n ddamweiniol pe bai un neu fwy o'r cynwysyddion yn yr ardal storio yn cael ei dorri, neu i atal anweddau adweithiol rhag ffurfio a chronni.

Ni ddylai cemegion gael eu storio yn ôl trefn yr wyddor oni bai eu bod wedi'u gwahanu i'w dosbarthiadau perygl yn gyntaf. Nid oes rheolau caeth am faint o ddosbarthiadau o gemegion a ddylai gael eu gwahanu oherwydd bydd y risg yn pennu i ba raddau y dylid eu gwahanu. Fodd bynnag, bydd gwahanu cemegion i'r dosbarthiadau perygl sylfaenol yn osgoi'r rhan fwyaf o adweithiau niweidiol damweiniol a all ddigwydd o ganlyniad i doriadau neu ollyngiadau mewn ardaloedd storio.

Mae HSG71 Chemical Warehousing: The Storage of Packaged Dangerous Substances [2] yn ganllaw arweiniol ar gyfer cydnawsedd cemegol ac yn darparu argymhellion cyffredinol am wahanu gwahanol ddosbarthiadau o sylweddau peryglus. Fodd bynnag, gwiriwch y daflen data diogelwch bob amser (gan nodi gwybodaeth storio berthnasol ar y Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol) a'r Asesiad Risg Cemegol oherwydd bydd y rhain yn darparu gofynion gwahanu neu storio mwy penodol megis oereiddio.

[2] https://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg71.htm

## Chemical Storage by Hazard Category - HSG71



| Chemical Segregation By Chemical Group. (CLASS) | 1 | 2 (2.1) | 2 (2.2) | 2 (2.3) | 3 | 4 (4.1) | 4 (4.2) | 4 (4.3) | 5 (5.1) | 5 (5.2) | 6 | 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Explosive 1.0 Explosive | | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Segregate From |
| Compressed gases 2.1 Flammable | Segregate From | | Keep Apart | Segregate from or Keep Apart | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Segregate From | ISOLATE | Keep Apart | Keep Apart |
| 2.2 Non Toxic Non flammable | Segregate From | Keep Apart | | Keep Apart | Keep Apart | Segregation may not be necessary | Segregate From | Segregation may not be necessary | Segregation may not be necessary | Segregate From | Segregation may not be necessary | Keep Apart |
| 2.3 Toxic | Segregate From | Segregate from or Keep Apart | Keep Apart | | Segregate From | Keep Apart | Segregate From | Keep Apart | Segregation may not be necessary | Segregate From | Segregation may not be necessary | Keep Apart |
| Flammable liquids | Segregate From | Segregate From | Keep Apart | Segregate From | | Keep Apart | Segregate From | Segregate From | Segregate From | ISOLATE | Keep Apart | Keep Apart |
| Flammable solids 4.1 Readily combustible | Segregate From | Segregate From | Segregation may not be necessary | Keep Apart | Keep Apart | | Keep Apart | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Keep Apart | Segregation may not be necessary |
| 4.2 Spontaneously combustible | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Keep Apart | | Keep Apart | Segregate From | ISOLATE | Keep Apart | Keep Apart |
| 4.3 Dangerous when wet | Segregate From | Segregate From | Segregation may not be necessary | Keep Apart | Segregate From | Segregate From | Keep Apart | | Keep Apart | Segregate From | Segregation may not be necessary | Segregation may not be necessary |
| Oxidising substances 5.1 Oxididing substance | Segregate From | Segregate From | Segregation may not be necessary | Segregation may not be necessary | Segregate From | Segregate From | Segregate From | Keep Apart | | Segregate From | Keep Apart | Keep Apart |
| 5.2 Organic peroxide | Segregate From | ISOLATE | Segregate From | Segregate From | ISOLATE | Segregate From | ISOLATE | Segregate From | Segregate From | | Keep Apart | Keep Apart |
| Toxic | Segregate From | Keep Apart | Segregation may not be necessary | Segregation may not be necessary | Keep Apart | Keep Apart | Keep Apart | Segregation may not be necessary | Keep Apart | Keep Apart | | Segregation may not be necessary |
| Corrosive | Segregate From | Keep Apart | Keep Apart | Keep Apart | Keep Apart | Segregation may not be necessary | Keep Apart | Segregation may not be necessary | Keep Apart | Keep Apart | Segregation may not be necessary | |

Am arweiniad pellach ar storio cemegion, cysylltwch â'r Arweinydd Iechyd a Diogelwch/Swyddog yr Amgylchedd priodol.

## Arweiniad ar ddosbarthu Gwastraff Cymysg Hydoddyddion Organig

Gellir casglu sylweddau organig ynghyd er mwyn eu gwaredu fel gwastraff. Fodd bynnag, mae rhai ohonynt yn anghydnaws ac o ganlyniad nid yw'n ddiogel eu storio gyda'i gilydd, felly bydd angen eu casglu mewn dau gategori ar wahân:

- **Halogenaidd(Cemegion organig sy'n cynnwys halogen):**
  - Fflworin ($f_2$) - e.e. asid trifflwroasetig
  - Clorin ($Cl_2$) e.e. clorofform
  - Bromin ($Br_2$) e.e. bromobensen
  - Ïodin ($I_2$) e.e. triiodomethan

- **Sylweddau nad ydynt yn halogenaidd.**

Mae'r gwahanu hyn hefyd yn hanfodol oherwydd bod sylweddau halogenaidd yn gofyn am driniaeth estynedig i leihau llygredd amgylcheddol wrth gael gwared â gwastraff.

Dylid gwneud pob ymdrech i gofnodi cyfansoddiad gwastraff halogenaidd a gwastraff nad yw'n halogenaidd i hwyluso'r broses waredu. Dylid nodi'r cyfansoddiad mor fanwl â phosibl ar y label gwaredu gwastraff cemegol a roddir ar arwyneb allanol y poteli Winchester, ac ar y Ffurflen Gwaredu Cemegion Gwastraff er mwyn gwaredu.

Er enghraifft:

- Gwastraff nad yw'n halogenaidd sy'n cynnwys crynodiadau amrywiol o ethanol, methanol, ethyl asetad, aseton

- Gwastraff halogenaidd sy'n cynnwys crynodiadau amrywiol o DCM, Clorofform.

O ran gwastraff, mae gwastraff halogenaidd yn cyfeirio at gemegion/hydoddyddion organig yn unig. Er enghraifft, ni fyddai toddiant 50% sodiwm clorid yn wastraff halogenaidd, ond byddai'n wastraff dyfrllyd anorganig. Os nad ydych chi'n siŵr, gallwch e-bostio estates-waste@abertawe.ac.uk am ragor o arweiniad.

## Arweiniad ar Ddosbarthu Gwastraff Dyfrllyd Cymysg

Dylid gwneud pob ymdrech i gofnodi cyfansoddiad gwastraff dyfrllyd i hwyluso'r broses waredu. Dylai'r cyfansoddiad gael ei nodi mor fanwl â phosibl ar y label gwaredu gwastraff cemegol a roddir ar y Winchester, ac ar y Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol er mwyn ei waredu.

Er enghraifft:

- Gwastraff dyfrllyd asidig anorganig sy'n cynnwys 0.1M HCl, 0.1M $H_2SO_4$ a 0.1M $HNO_3$ mewn cyfrannau amrywiol
- Gwastraff dyfrllyd basig anorganig o 0.1M NaOH yn ogystal â chemegion hybrin eraill.

## Cynwysyddion Gwastraff Cemegol

Mae'n rhaid i gynwysyddion gwastraff fod yn briodol ar gyfer y math o wastraff sy'n cael ei storio ynddynt; felly, dylid dilyn y canllawiau canlynol:

- **Poteli Winchester Gwydr:** Defnyddir y rhain ar gyfer y rhan fwyaf o gemegion, ond nid gwastraff asid hydrofflworig (HF).
- **Poteli Winchester plastig (HDPE / PP / PTFE):** addas ar gyfer asidau ac alcalïau. Fodd bynnag, ni ddylid eu defnyddio ar gyfer toddyddion cryf iawn neu gymysgeddau sy'n cynnwys toddyddion cryf iawn heb asesu'r addasrwydd yn gyntaf.

- Ni ddylid defnyddio **cynwysyddion/poteli a ddyluniwyd ar gyfer solidau** i storio gwastraff hylifol.
- Er mwyn lliniaru'r risg o or-wasgeddu, rhaid defnyddio caeadau â fent er mwyn gallu rhyddhau gwasgedd yn ddiogel.
- Ni ddylai caeadau poteli/cynhwysyddion gael eu cau'n rhy dynn

Pan ddefnyddir cynhwysydd (e.e. Winchester) ar gyfer gwastraff a oedd yn dal cemegyn arall o'r blaen, rhaid cadw at y canlynol:

- Mae'r cynhwysydd yn cael ei awyru a'i lanhau gan sicrhau nad yw'n cynnwys unrhyw weddillion a allai adweithio â'r gwastraff.
- Mae'r label cynnwys blaenorol naill ai:
  - Wedi'i ddileu'n llwyr, neu
  - Wedi'i olygu'n llwyr
- Dylid gwirio ei fod yn ffisegol gadarn heb unrhyw graciau, tolciau na thyllau.
- Gwiriwch fod y cynhwysydd yn gallu dal yr hylif yn dynn â chap neu gaead addas


Rhaid labelu pob cynhwysydd gwastraff yn glir fel **'gwastraff'** a manylu ar gynnwys y cynhwysydd (e.e. gwastraff halogenaidd) a sicrhau bod y symbolau perygl GHS priodol ynghlwm.

Cyfrifoldeb cynhyrchydd y gwastraff yw gwirio cyflwr pob Winchester a chynhwysydd cyn gwaredu gwastraff. Mae'n rhaid i Golegau/Gwasanaethau Proffesiynol/grwpiau ymchwil gael gafael yn eu poteli gwastraff neu Winchester eu hunain i waredu gwastraff. e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk am fanylion.

Ni ddylid gorlenwi cynwysyddion gwastraff (gwydr neu blastig). Ni ddylid byth eu llenwi mwy na 3/4. Os na chaiff y gofynion hyn eu bodloni, ni fydd y cynwysyddion gwastraff yn cael eu derbyn yn y storfa.

Mae arweiniad o ran cynwysyddion a phecynnu addas wedi'i nodi mewn taflenni data diogelwch cemegol unigol.





| |
|---|
| *Ffigwr 1 - Chwith i'r dde: Uchder mwyaf llenwi cynhwysydd gwastraff. Enghraifft o ganlyniad i or-lenwi a/neu ddefnydd anghywir o boteli Winchester gwydr*<br><br>**Gwaredu**<br>Unwaith i brif briodwedd beryglus y gwastraff gael ei nodi, gweler **8.1.5 WMP** Gweithdrefn Defnyddwyr y Storfa Gwastraff Cemegol. |
| **Am ragor o arweiniad, e-bostiwch Estates-Waste@abertawe.ac.uk** |
| **Ffurflenni a Labelu: Gellir dod o hyd i'r holl ffurflenni a labeli perthnasol ac arweiniad pellach ynghylch gwastraff yma.** |

# Atodiad A
# Enghraifft - Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol wedi'i chwblhau

**CHEMICAL WASTE DISPOSAL REQUEST FORM**

**ONCE COMPLETE PLEASE SEND TO ESTATES-WASTE@SWANSEA.AC.UK**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Faculty:** | FSE | **Faculty / Dept:** | Chemistry |
| **Contact name:** | Technicians | **Ext No:** | 4444 |
| **Date:** | 21 May 2026 | **Laboratory:** | G336 |

| **Substance Name** (mandatory filed) | **CAS number** *(if applicable)* | **Quartzy ID number** | **Description of container** e.g. winchester bottle (mandatory field) | **State** (Liquid, solid, powder etc.) (mandatory field) | **Weight/ Volume** (kg/ ml) (mandatory field) | **Quantity / number of item** (mandatory field) | **Laboratory/ Location disposing of** (Building & room no) (mandatory field) | **Hazard Property (s) (HP1-HP15) e.g. HP3 - Flammable See SDS Safety Data Sheet** (mandatory field) | **Is the container fully labelled?** (mandatory field) | **Have you provided the SDS for the substance** (if appropriate) | **Storage requirements (from SDS Safety Data Sheet)** | **Date of disposal** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Non-halogenated waste containing:<br>EtOH<br>MeOH<br>Acetone<br>in varying proportions | N/A | N/A | 5l HDPE Jerry Can with vented cap | Liquid | ~4L | 2 | G336 | HP3, HP4, HP5, HP6 | Yes | Yes | Flammables | 21/05/2026 |
| 37% Hydrochloric Acid | 7647-01-0 | SCA2222 | 2.5L plastic winchester | Liquid | ~2L | 1 | G336 | HP4, HP5, HP8 | Yes | Yes | Corrosives | 21/05/2026 |
| Red Bag contaminated waste containing:<br>Blue roll<br>filter papers<br>nitrile gloves<br>contaminated with:<br>HCl, MeOH | N/A | N/A | Red bag | Solid | ~3kg | 5 | G336 | HP3, HP4, HP5, HP6 | Yes | Yes | N/A | 21/05/2026 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |